Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod 24 Mai 2018

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts (Is-gadeirydd), A. Jones, S. Edwards, G. Parry, H. Huws, G. C. Jones, Mervyn Jones, D. Jones,
D. Owen (Clerc),

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
1.1	A. Williams, E. Parry, Meirion Jones, R. Williams (Cynghorwr Sir)		
1.2	A. Mummery yn diolch i'r aelodau a'i fod wedi bod yn fraint bod yn Gadeirydd am ddwy flynedd. Ymhellach fe gyhoeddodd ei fod wedi rhoi'r arian a gasglwyd ar ei bumdeg blynedd tuag at dlws gwydr y Cyngor Bro, a tuag at dlws i'r Cadeirydd.		
2.0	Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd		
2.1	G. Parry yn cynnig, G. C. Jones yn eilio J. Roberts fel Cadeirydd. Cytunwyd yn unfrydol a derbyniodd J. Roberts y sedd. Diolchodd i A. Mummery am ei wasanaeth fel Cadeirydd a nododd mai hon yw ei pumed cyfnod fel Cadeirydd y Cyngor Bro		
2.2	H. Huws yn cynnig, G. C. Jones yn eilio S. Edwards fel Is Gadeirydd. Cytunwyd yn unfrydol a derbyniwyd y sedd		
3.0	**Penodi Aelodau i Bwyllgorau**		
3.1	Cytunwyd i barhau a'r drefn bresennol. J. Roberts yn cadarnhau fod angen penodi Cadeirydd ac Is Gadeirydd yng nghyfarfod nesaf pob pwyllgor y Cyngor Bro.		
4.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb		
5.0	**Cyfrifon Mis Mai 2018**		
5.1	Nodwyd bod angen gwneud cais TAW am 2017/18		
5.2	A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio, derbyniwyd y rhain fel y rhai cywir		
6.0	**Cynrychiolwyr Pwyllgorau Allanol**		
6.1	A. Mummery yn nodi fod y Cynghorwr Sirol Carwyn Jones wedi bod yn protestio yn ddiweddar yn erbyn y cysylltiad trydan newydd arfaethedig y Grid Cenedlaethol yn ardal Llanfair.		
6.2	G. C. Jones yn nodi ei fod wedi mynychu cyfarfod Fforwm Cyswllt a Fforwm Briffio DCO Horizon. Nododd fod cyfarfod y Fforwm DCO wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn egluro'r broses fydd yn cael ei ddilyn gyda'r DCO.		
6.3	Adroddodd G. C. Jones o'r Fforwm Cyswllt fod y Planning Portal i Gyngor Sir Ynys Môn yn mynd yn fyw ym Mis Gorffennaf		
6.4	A. Mummery yn cadarnhau ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan CADNANT Planning yn gofyn am syniadau am enw ar gyfer datblygiad Hen Lôn Dyfnia . A. M yn cynnig yr enw 'Ael Eilian' Mervyn Jones yn eilio, cytunwyd i'r cynnig. A. M am ymateb iddynt i gadarnhau	**A. Mummery**	
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 24 Ebrill 2018**		
7.1	A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
8.0	**Materion yn codi o'r cofnodion**		
8.1	Twr Marcwis - Dim diweddariad pellach i adroddiad S. Edwards yn Chwefror		
8.2	Cloc - A. Mummery yn nodi bod canmoliaeth i'r gwaith. Hefyd yn nodi bod angen rhywbeth i ddal torchau a chynnig efallai fod yn fater i Bwyllgor Amgylchedd ac Eiddo i edrych arno.	Pwyllgor A ac E	
8.3	Gwelliannau Pentrefol a sefydliad cymunedol - S. Edwards heb gael cyfle i drafod gydag Aled eto gan ei fod yn disgwyl clywed gan D. Evans ynglŷn â chais posib am grant i wneud ffens newydd. S. Edwards am ddilyn i fyny	**S. Edwards**	
8.4	Ymgyrch codi arian Neuadd Goffa - A. Mummery yn nodi fod Dylan Evans heb fod yn llwyddiannus hyd yn hyn gyda cheisiadau am grantiau. Mae'n parhau i weithredu		

8.5	DBS - Clerc i weithredu.		
8.6	Cais grant First Hydro - S. Edwards wedi dilyn i fyny a nodwyd fod dim digon o wybodaeth ynglŷn â gwelliant cymunedol wedi cyflwyno yn y cais.		
8.7	Ffens arfaethedig rownd y cae pêl droed - S. Edwards yn dilyn y mater i fyny	**S. Edwards**	
8.8	Penodi Archwiliwr Mewnol - Cytunwyd i benodi J. A. Foulkes i wneud yr archwiliad mewnol am gyfrifon 2017/18		
8.9	Lon Refail - Clerc wedi paratoi drafft o lythyr i yrru i'r Cyngor Sir a Heddlu. Cytunwyd i'w yrru	**D. Owen**	**26/06/18**
8.10	Seddi gwag - Clerc i osod yr hysbysiad ar yr Hysbysfwrdd ac i yrru i Bapur Menai	**D. Owen**	**26/06/18**
9.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 08 Mai 2018**		
9.1	A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
10.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		
10.1	Cytunwyd i ofyn i Now Parry wneud PAT test ar offer y Neuadd ac i ofyn i Swyddogion y Swyddfa Etholiadau yn y Cyngor Sir i symud yr hen ramp o'r Neuadd	**D. Owen**	
10.2	Paentio'r Neuadd Goffa - Nodwyd fod dau bris wedi derbyn o £500 a £470. S. Edwards yn cynnig, D. Jones yn eilio, cytunwyd i benodi'r contractwr a'r pris lleiaf. Clerc i'w hysbysu. Nodwyd fod A. J, G. P a G. C. J wedi ymatal rhag pleidleisio	**D. Owen**	
11.0	**Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion Pwyllgor Meysydd Chwarae 08 Mai 2018**		
11.1	A. Mummery yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir		
12.0	**Materion yn codi o'r Cyfarfod**		
12.1	Bwrdd Table Tennis - Cytunwyd i argymhelliad y Pwyllgor Meysydd Chware i archebu'r bwrdd. Mervyn Jones i yrru manylion i'r Clerc	**Mervyn a D. Owen**	
13.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
13.1	Dim cais cynllunio wedi derbyn yn ystod Mis Mai		
14.0	**Gohebiaeth**		
14.1	Cylchgrawn Clerks & Councils Direct - Derbyn y wybodaeth		
14.2	Llythyr Derec Llwyd Morgan (Fforwm Iaith Môn) - Derbyn y wybodaeth a nodwyd y cynnwys		
15.0	**Materion Brys**		
15.1	A. Jones yn nodi ei fod yn cael trafferthion gyda'r safle we a bod dim ymateb i gael gan Fenter Môn, a hefyd bod cyn-aelod y Cyngor Bro Eryl Davies yn dal i dderbyn e-byst o'r hen safle we. S. Edwards am drio cael cyngor gan gyfaill am y mater ac H. Huws i gysylltu â Menter Môn i geisio cael ymateb.	**S. Edwards a H. Huws**	
15.2	A. Jones, G. Parry yn nodi bod nifer o'r llwybrau angen sylw, A. Mummery ofyn i Golin weithredu	**A. Mummery**	
15.3	D. Jones wedi gwneud ymchwil pellach i gael defibrilator yn y Pentref. Cytunwyd i drafod ym Mhwyllgor Amgylchedd ac Eiddo. Nodwyd G. C. Jones fod yno un ym Mhringles, ond nod yw ar gael 24/7 ac nid oes ymwybyddiaeth fawr amdano.	**Pwyllgor A ac E**	
15.4	H. Huws yn nodi fod to wedi disgyn ar y cwt wrth y Môr ar dir Idefatigable. Cytunwyd i'r clerc gysylltu â nhw a gofyn am eu bwriad am yr adeilad	**D. Owen**	
15.5	J. Roberts yn nodi bod tîm o enethod o Ysgol Llanfair wedi mynd trwodd i rownd gynderfynol yn y Stadiwm King Power. Cytunwyd i yrru llythyr yn eu llongyfarch	**D. Owen**	

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 26 Mehefin 2018 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad